Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli

**Lodge Hill**
**Caerllion**
**Casnewydd**
**NP18 3DY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli |
| Awdurdod lleol | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 18 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 5 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | * |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/05/2021 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/06/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

## Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, a sefydlwyd yn Medi 2021, yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu Cymreictod, cwrteisi a pharch disgyblion yn arbennig o dda. Mae'r pennaeth gweithredol dros dro, gyda chefnogaeth y tîm arwain, yn darparu arweiniad clir a doeth ac yn parchu ymdrechion pawb sy'n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles disgyblion ar draws yr ysgol, mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu'n gryf ar agweddau'r disgyblion tuag at ei gilydd.

Mae staff yn arddel yr iaith Gymraeg yn gywir a brwdfrydig sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar y disgyblion o oedran ifanc. O ganlyniad, mae defnydd y disgyblion o'r Gymraeg a balchder ynddi yn nodwedd gref. Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn cynllunio ystod o brofiadau dysgu a chwarae ysgogol i ddisgyblion. Mae'r cydweithio sy'n bodoli rhwng staff yr ysgol a staff ysgol gyfagos sy'n cael ei harwain gan y pennaeth gweithredol dros dro, a gyda staff ysgolion y clwstwr, yn dylanwadu'n gadarnhaol ar addysg disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w mannau cychwyn a'u cam datblygu yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar a darllen Cymraeg yn fedrus, gan gyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau a mynegi eu barn yn glir ac aeddfed.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol, sy'n cynnwys sesiynau gwerthfawr iddynt gydweithio â'i gilydd i ddatrys heriau a chwblhau prosiectau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn fwriadus. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da dros amser yn erbyn eu targedau a'u cyflawniadau blaenorol. Yn yr arferion gorau, mae dulliau holi ac adborth llafar staff yn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion wella'u dysgu. Er hyn, nid yw'r arferion effeithiol hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drwyadl. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth gweithredol dros dro a'r staff yn bwrpasol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella, gan ddarparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod athrawon yn ymestyn dysgu'r disgyblion ymhellach drwy ddulliau holi ac adborth llafar effeithiol sy'n gyson ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredui fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau llafar Cymraeg isel a medrau cymdeithasol yn unol â datblygiad disgwyliedig. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol a disgyblion o gefndiroedd all gael eu heffeithio gan dlodi, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau, gan gynnwys eu medrau Cymraeg sy'n datblygu'n hynod lwyddiannus.

Mae medrau gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau staff ac yn ymateb i gwestiynau yn llwyddiannus. Maent yn gwrando'n ofalus ar gyfranogiad ei gilydd, er enghraifft wrth i ddisgyblion drafod prif ddigwyddiadau'r stori 'Jac a'r Goeden Ffa'. Mae medrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n bwrpasol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn trafod yr hyn sy'n bwysig i'w gynnwys mewn bag gwyliau haf gyda brwdfrydedd amlwg.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Yn y dosbarth derbyn, mae'r rhan fwyaf yn adnabod llythrennau gan eu cysylltu â'u seiniau yn gynyddol gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cywain gwybodaeth o ystod o lyfrau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddarganfod gwybodaeth am wledydd tramor i'w cynnwys mewn ffeil o ffeithiau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth wella eu medrau ysgrifennu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar, gan ddefnyddio ystod o offer yn yr ardaloedd dysgu yn bwrpasol. Maent yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir ac yn cyfateb seiniau a llythrennau yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r disgyblion yn dechrau creu brawddegau syml sy'n ystyrlon, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at y pennaeth yn datgan eu pryder am sbwriel ar dir yr ysgol.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod rhifau hyd at bump ac yn hyderus wrth gyfri gwrthrychau i 10 yn yr ardaloedd dysgu. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o werth darnau arian hyd at £1, er enghraifft wrth gyfrifo cost nwyddau yn y siop. Maent yn defnyddio ystod o offer mesur ansafonol a safonol yn gynyddol gywir wrth amcangyfrif a mesur taldra gwahanol wrthrychau o amgylch yr ysgol.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn hyderus i ddarganfod lluniau o wledydd tramor. Maent yn copïo a gludo'r lluniau'n llwyddiannus wrth greu pamffled digidol i dwristiaid a chreu siartiau bar o hoff ffrwythau'r disgyblion.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn mwynhau defnyddio ystod o offer a defnyddiau i greu lluniau a modelau. Er

enghraifft, fel rhan o’u thema, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn hyderus wrth ddewis deunyddiau ailgylchu i greu lluniau amlgyfrwng o greaduriaid y môr.

Mae medrau corfforol bron bob disgybl yn gwella’n llwyddiannus wrth gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau buddiol. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn datblygu eu medrau dringo a chydbwyso yn fedrus wrth greu cwrs rhwystrau. Maent yn datblygu eu medrau cyd-symud yn effeithiol wrth gymryd rhan mewn gemau buarth yn frwdfrydig.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn rhagorol yn ystod eu gweithgareddau, tra’n dysgu’n annibynnol, ac wrth chwarae gyda’u ffrindiau yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn ystyriol o’u cyfoedion ac yn ymateb yn aeddfed pan fydd disgyblion yn wynebu heriau penodol. Maent yn gwybod beth i’w wneud os ydynt yn poeni am unrhyw agwedd o’u profiad yn yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf yn mynegi eu teimladau’n hyderus ac yn fodlon rhannu unrhyw bryderon sydd ganddynt. Maent yn esbonio’n ddeallus bwysigrwydd y ‘mannau meddwl’ a’r ‘llosgfynydd teimladau’ yn y dosbarthiadau i ystyried eu teimladau.

Mae bron bob disgybl yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod eu tasgau dysgu amrywiol. Maent yn frwdfrydig wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau fel tylino toes ac yn gwerthfawrogi bod hyn yn cefnogi eu lles yn effeithiol.

Yn ystod gweithgareddau, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ddysgu. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau dysgu yn gynyddol annibynnol. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu hyder ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth ddysgu a chwarae yn y dosbarth ac yn yr ardaloedd tu allan. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn dyfalbarhau’n ddiwyd wrth gydbwyso blociau’n fedrus wrth adeiladu castell.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd gwerthoedd da a pharchu eraill. Mae disgyblion Blwyddyn 1 yn llwyddo i drafod ymddygiad derbyniol a llai derbyniol yn ystyrlon. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cynaliadwyedd ac yn ystyriol o effaith pobl ar yr amgylchedd. Maent yn deall a chadw at reolau’r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg.

Mae’r disgyblion ieuengaf yn dilyn trefniadau’r dosbarth yn fuan ac yn dysgu chwarae’n hapus ochr yn ochr â’u ffrindiau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cael eu herio mewn gweithgareddau dysgu annibynnol, gan ddangos gwytnwch wrth geisio cyflawni eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn dysgu’n frwdfrydig wrth ddethol yr her berthnasol wrth gyflawni tasgau annibynnol ac yn ymroi o’u gorau wrth eu cyflawni. Maent yn barod i holi am gymorth gan aelodau’r grŵp a chwilio am eirfa ar furluniau’r dosbarth i’w cefnogi.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu’n frwdfrydig â’u dysgu, ac yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd. Darperir cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion rannu syniadau ac awgrymiadau am yr hyn maent am ei ddysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn penderfynu creu animeiddiad o’r planedau i

gefnogi'r thema 'Sbwriel ac Ailgylchu'. O ganlyniad i'r cyfleoedd nodedig hyn, mae'r rhan fwyaf yn dangos mwynhad yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n aeddfed ar gyfraniadau eraill ac yn dysgu parchu eu barn, sy'n eu paratoi'n dda i ddeall pwysigrwydd goddefgarwch. Mae hyn yn hyrwyddo ethos caredig yr ysgol yn llwyddiannus. Wrth iddynt aeddfedu, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd adborth llafar staff er mwyn gwella eu dysgu. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar ddatblygu eu medrau a'u hannog i ymroi o'u gorau.

Mae disgyblion yn dylanwadu'n frwdfrydig ar agweddau penodol o fywyd yr ysgol, sy'n cynnwys creu ffilm i hyrwyddo'r ysgol wrth benodi aelod o staff a chyfrannu syniadau ar gyfer cyfansoddi cân yr ysgol. Mae'r disgyblion hynaf yn ymwybodol o ddulliau cadw'n ddiogel ar-lein. Mae presenoldeb cyson y disgyblion yn yr ysgol yn briodol.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau'n bwrpasol i sicrhau bod bron bob disgybl yn mwynhau profiadau dysgu gwerthfawr sy'n datblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau yn llwyddiannus. Mae gan y staff berthynas waith dda â'r disgyblion. Maent yn darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol ac, o ganlyniad, mae ymddygiad bron bob disgybl yn ardderchog, ac maent yn gwrtais at eraill ac yn trin staff ac ymwelwyr gyda pharch.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer cyflwyno cwricwlwm cyfoethog a pherthnasol yn datblygu'n effeithiol. Mae athrawon yn cydweithio'n bwrpasol i ddarparu profiadau gwerthfawr sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad yn fwriadus. Mae athrawon yn holi'r disgyblion am eu syniadau ac yn addasu'r ddarpariaeth yn greadigol yn unol â'u diddordebau. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau diddorol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb bron bob un yn llwyddiannus. Yn ystod eu themâu tymhorol, mae'r disgyblion yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy weithgareddau amrywiol. Er enghraifft, maent yn dysgu Ffrangeg ac yn dwysáu eu dealltwriaeth o wlad dramor fel rhan o'u thema am y gemau Olympaidd.

Mae'r ddarpariaeth o fewn yr ardaloedd dysgu, y tu fewn a thu allan i'r adeilad, yn gyfoethog ac yn darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion chwarae, dysgu ac ymchwilio mewn amgylchedd ysgogol. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau dysgu am fyd natur drwy ddysgu yn yr ardal goedwig a thyfu llysiau yng ngardd yr ysgol. Mae disgyblion yn elwa'n fawr o brofiadau sy'n datblygu eu medrau yn llwyddiannus. Er enghraifft, o fewn sesiynau gwella lles, maent yn dysgu dulliau pwysig i ymdopi â heriau all effeithio ar eu lles emosiynol.

Mae staff yn cynllunio gweithgareddau yn yr ardal leol i ennyn balchder disgyblion at eu cymuned. Enghraifft dda o hyn yw cyfraniad disgyblion i ymgyrch cadw'r pentref yn daclus ble aeth y disgyblion o gwmpas Caerllion yn casglu sbwriel. Yn ogystal, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ymwelwyr ddod i'r ysgol i gyfoethogi ac atgyfnerthu'r dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion wedi dysgu dawnsiau traddodiadol Cymreig trwy gymryd rhan mewn gweithdy clocsio. Yn ogystal, fel rhan o'r 'Wythnos Byd Gwaith', mae rhieni'n ymweld â'r ysgol i drafod gyda'r disgyblion bwysigrwydd

eu gyrfaoedd yn y gymuned. Mae hyn yn dwysáu dealltwriaeth disgyblion o'r medrau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwahanol swyddi.

Mae staff yn arddel iaith gywir ac yn annog disgyblion i wella eu medrau llafar Cymraeg yn gyson. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymfalchïo yn eu gallu i siarad Cymraeg. Mae cyflwyniadau athrawon yn fyrlymus ac ysgogol gan ennyn diddordeb disgyblion. Maent yn eu hannog i feddwl drostynt eu hunain, i fynegi barn a chynnig rhesymau dros eu safbwyntiau. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth da o ddisgwyliadau'r gweithgareddau dysgu.

Yn yr arferion gorau, mae staff yn holi'r disgyblion yn dreiddgar ac yn darparu adborth llafar defnyddiol iddynt yn ystod eu gweithgareddau. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o ddisgyblion o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u dysgu yn datblygu'n dda. Er hyn, nid yw'r dulliau effeithiol hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn gynhwysfawr, gan adrodd yn glir ar gyflawniad disgyblion ynghyd â'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i ddatblygu ymhellach.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a hapus sy'n cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol pob un o'r disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn gosod pwyslais cryf ar hybu ymddygiad cadarnhaol a meithrin parch disgyblion at ei gilydd. Caiff hyn ei amlygu yn ymddygiad ardderchog a chwrteisi naturiol bron bob disgybl.

Mae gan y staff adnabyddiaeth drylwyr o bob plentyn. Maent yn defnyddio dulliau addas i adnabod cynnydd yr holl ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag ADY. Mae hyn yn galluogi staff i sicrhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u mannau cychwyn unigol.

Mae staff yr ysgol yn darparu cymorth pwrpasol ar gyfer disgyblion ag ADY. Maent yn cydweithio'n effeithiol ag ystod eang o asiantaethau allanol er mwyn cyflawni hyn. Maent yn adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol o oedran cynnar. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o raglenni cymorth pwrpasol sy'n galluogi disgyblion ag ADY i wneud cynnydd da yn eu medrau dros amser. Mae staff yn cydweithio'n ddiwyd i olrhain cynnydd disgyblion yn gyson. Maent yn cynnwys y rhieni'n bwrpasol yn nhrafodaethau cynnydd eu plant ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt gefnogi medrau llythrennedd a chymdeithasol eu plant yn y cartref. Trwy'r cydweithio effeithiol, mae'r disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn dros amser.

Mae staff yn darparu sesiynau effeithiol i ddiwallu anghenion lles disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu iechyd a ffitrwydd yn boblogaidd ymhlith disgyblion ac yn cael effaith uniongyrchol ar eu lles a'u datblygiad addysgol. Mae'r pwyslais ar ofalu am les corfforol ac emosiynol yn flaenoriaeth mewn sesiynau dysgu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn trafod yr agweddau hyn yn hyderus, gan gynnwys rhannu eu teimladau a'u gofidiau gydag eraill. Mae cyfleoedd gwerthfawr mewn sesiynau dysgu i'r disgyblion ddysgu bod pawb yn wahanol a bod angen ymfalchïo yn hyn yn y gymuned ehangach.

Mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol, ac yn eu cefnogi i ddangos empathi at eraill. Er

enghraifft, maent yn cynnal gwasanaeth diolchgarwch gan gyflwyno bwydydd i'r banc bwyd lleol. Darperir sesiynau cydaddoli addas a chyfle i'r disgyblion fyfyrio ar werthoedd a sut i ofalu am ei gilydd. Mae cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn ac archwilio credoau yn fuddiol, er enghraifft wrth ddysgu am wyliau Cristnogol a thraddodiadau dathliad crefyddau eraill sy'n cynnwys Ramadan ac Eid. Mae'r cyfleoedd buddiol i ddisgyblion drafod yn aeddfed a deall perthnasoedd amrywiol a chydraddoldeb yn gryfder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'r diwylliant Cymreig yn hynod effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion trwy brofiadau dysgu am enwogion Cymru a dathlu diwrnodau arwyddocaol gyda chymuned yr ysgol i hyrwyddo a meithrin balchder at yr iaith Gymraeg. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn falch eu bod yn siarad Cymraeg.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau i feithrin eu hunanhyder a'u gallu mynegiannol. Maent yn cynnwys perfformio mewn sioeau yn y gymuned mewn partneriaeth gynhyrchiol á'r fenter iaith leol a chyfleoedd i unigolion gystadlu yn eisteddfod yr Urdd am y tro cyntaf. Mae'r cyswllt clos â'r gymuned a'r gefnogaeth i ddatblygu'r Gymraeg yn yr ardal leol yn elfen gref o waith yr ysgol.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol yn gadarn ac mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau sy'n cyfrannu at ddiogelwch a lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo presenoldeb da a phwysigrwydd prydlondeb ymhlith disgyblion, gan gynnwys monitro cyfraddau'n ddyddiol. Mae staff yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni ac yn trefnu gweithgarwch dilynol wedi'i gefnogi gan yr awdurdod lleol, yn ôl yr angen.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Ers sefydlu Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ym mis Medi 2021, mae arweinyddiaeth ddoeth a chadarn y pennaeth gweithredol dros dro, gyda chydweithrediad cefnogol tîm y llywodraethwyr a staff, wedi datblygu cymuned ddysgu glòs a hynod effeithiol.

Mae gan y pennaeth gweithredol dros dro, gyda chefnogaeth amhrisiadwy'r tîm arwain, weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ethos gofalgar lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn datblygu i fod yn aelodau brwdfrydig o gymuned yr ysgol. Maent yn gwireddu arwyddair yr ysgol, sef 'Law yn llaw fe hwyliwn dros y tonnau', yn llwyddiannus, ac yn meithrin gwerthoedd sy'n ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr hyderus ac iach sy'n ymfalchïo yn eu cymuned a'u hiaith.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer eu hunain, y staff a'r disgyblion. Mae staff yn arddel gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at wella'r ddarpariaeth a sicrhau bod cydweithio effeithiol yn rhan allweddol o drefniadau'r ysgol. Mae'r cydweithio sy'n bodoli rhwng staff ar draws yr ysgol a staff yr ysgol sy'n cael ei harwain gan y pennaeth gweithredol dros dro, a gyda staff ysgolion y clwstwr, yn dylanwadu'n gadarnhaol ar addysg disgyblion.

Mae gweithdrefnau arweinyddiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd disgyblion, yn ogystal â'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau a'r ardaloedd dysgu ehangach. Mae arweinwyr a staff yn cynllunio'n bwrpasol i fodloni blaenoriaethau

lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth gyflwyno egwyddorion y cwricwlwm a gweithredu elfennau allweddol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn effeithiol. Mae gan athrawon gyfrifoldeb am feysydd dysgu a phrofiad penodol sy’n dechrau dyfnhau eu dealltwriaeth o’r gofynion a chyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion. Mae’r cynorthwywyr yn aelodau allweddol o dîm yr ysgol sy’n cyfrannu’n fwriadus at wella cynnydd yn lles, medrau cymdeithasol a dysgu’r disgyblion. Mae staff yn hybu’r Gymraeg a’r ethos Cymreig yn fwriadus, sy’n cyfrannu at ddatblygu balchder disgyblion at eu hiaith, diwylliant a’u treftadaeth yn hynod lwyddiannus.

Mae blaenoriaethau’r ysgol ar gyfer gwella wedi’u seilio ar amrediad addas o dystiolaeth uniongyrchol, ac mae dealltwriaeth y staff ohonynt yn gadarn. Mae gweithdrefnau effeithiol wedi’u sefydlu i adolygu cynnydd, nodi meysydd i’w gwella ac adnabod camau i’w gweithredu. O ganlyniad, mae arweinwyr a staff yn adnabod eu hysgol yn drwyadl ac yn mynd i’r afael â’r rhan fwyaf o’r gwelliannau yn fedrus.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cael, ystyried a chwestiynu gwybodaeth ddefnyddiol am effaith gweithdrefnau gwella’r ysgol ar y ddarpariaeth ac am les a chynnydd disgyblion. Mae cyfleoedd bwriadus i aelodau’r corff gymryd rhan weithredol yn y broses hunanwerthuso, gan gynnwys ymweld â dosbarthiadau, trafod gyda disgyblion a chraffu ar eu gwaith. Mae’r llywodraethwyr yn ymfalchïo yn y bartneriaeth gynhyrchiol sy’n bodoli â’r ysgol gyfagos sy’n cael ei harwain gan y pennaeth gweithredol dros dro. Mae’r trefniadau yn effeithio’n gadarnhaol ar les a chynnydd y disgyblion ac yn dylanwadu’n uniongyrchol ar ddatblygiad proffesiynol staff. Enghraifft dda o hyn yw’r cydlynydd ADY yn darparu hyfforddiant a chyngor defnyddiol i’r staff. Mae’r llywodraethwyr yn cydweithio â staff a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gwariant yn cysylltu’n fwriadus ag amcanion a chynlluniau gwella’r ysgol. Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllideb yr ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi a chodi safonau disgyblion. Maent yn cynllunio’n ofalus ar gyfer cyllido ar gyfer datblygiad yr ysgol i’r dyfodol. Mae’r gwariant yn cysylltu’n briodol â blaenoriaethau’r cynllun datblygu a chaiff cyllid ei fonitro’n ofalus i sicrhau’r defnydd gorau ohono. Mae arweinwyr yn cynllunio gwariant y grant datblygu disgyblion yn synhwyrol, sy’n cynnwys darparu rhaglenni cefnogi wedi’u teilwra at anghenion emosiynol a dysgu unigolion.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i staff ddatblygu'n broffesiynol. Maent yn cynnwys cyfleoedd i gael hyfforddiant gwerthfawr am feysydd dysgu a phrofiad, datblygu dulliau holi disgyblion yn effeithiol a mynychu hyfforddiant am agweddau penodol o ddulliau buddiol i gefnogi disgyblion ag ADY. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn hyrwyddo dysgu proffesiynol staff yn addas ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a’r ddarpariaeth.

Mae gan yr ysgol berthynas weithredol â’r ysgol uwchradd leol ac ysgolion y clwstwr, sy’n cynnwys darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon weithio ar y cyd i lunio dull gwerthfawr o werthuso datblygiad medrau’r disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn elwa o brofiadau pwrpasol ar draws y meysydd dysgu.

Mae’r berthynas rhwng yr ysgol a’r rhieni yn gadarn. Mae’r ysgol yn cyfathrebu’n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau o ddydd i ddydd ac i rannu cyflawniadau a llwyddiannau eu plant. Mae’r rhieni’n falch iawn bod eu plant

yn mynychu ysgol mor gefnogol sy'n gwbl ganolog i dwf addysg cyfrwng Cymraeg yn ninas Casnewydd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**This document has been translated by Trosol (Welsh to English). / Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2024